GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Iechyd Cyhoeddus Cymru: **Ffocws Cenedlaethol, yn Gyfrifol yn Fyd-eang**

## Ein Strategaeth Iechyd Ryngwladol fel Galluogydd ein Strategaeth Hirdymor

2023 – 2035



Iechyd Cyhoeddus Cymru:
**Ffocws Cenedlaethol, yn Gyfrifol yn Fyd-eang**

Ein Strategaeth Iechyd Ryngwladol fel Galluogydd ein Strategaeth Hirdymor

2023 – 2035

## Awduron

Datblygwyd yr adroddiad hwn gan y Tîm Iechyd Rhyngwladol, Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru: Dr. Liz Green, Dr. Emily Clark, Laura Holt, Abigail Malcolm, Golibe Ezenwugo, Daniela Stewart, Dr. Mariana Dyakova.

## Diolchiadau

Diolch yn arbennig i'r rhai a gyfrannodd eu gwybodaeth o bob rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru ac i'r rhanddeiliaid allanol niferus am gymryd rhan yn yr arolwg, y cyfweliadau a'r ymarferion mapio sy'n sail i'r strategaeth hon. Diolch yn fawr i Dr. Sumina Azam, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi a Iechyd Rhyngwladol Cyfarwyddiaeth Canolfan Gydweithredol WHO, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Dyfyniad:

Green L, Clark E, Holt L, Malcolm A, Ezenwugo G, Stewart D a Dyakova M (2023). Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ffocws Cenedlaethol, yn Gyfrifol yn Fyd-eang Ein Strategaeth Iechyd Ryngwladol fel Galluogydd ein Strategaeth Hirdymor 2023 – 2035. Caerdydd, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN 978-1-83766-263-0

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023
Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth (OGL)
www.nationalarchives.gov. uk/doc/open-government-licence/version/3/
cyn belled â'i fod yn cael ei wneud mewn modd cywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.
Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb Gweithredol** | **2** |
| **I. Cyflwyniad** | **4** |
| **II. Nodau** | **6** |
| 1. Mwyafu buddion ar gyfer iechyd a llesiant y bobl yng Nghymru | 6 |
| 2. Datblygu pobl a sefydliadau sy'n gyfrifol yn fyd-eang | 7 |
| 3. Ymateb i fygythiadau iechyd byd-eang ac elwa ar gyfleoedd rhyngwladol | 7 |
| **III. Edrych yn ôl** | **8** |
| Enghreifftiau o ffactorau rhyngwladol sy'n ymwneud â Blaenoriaethau Strategol y Strategaeth Hirdymor | 10 |
| O Iechyd Byd-eang i Iechyd y Blaned | 14 |
| Cymru fel rhan o ddull iechyd byd-eang a datblygu rhyngwladol ehangach y DU | 14 |
| **IV. Creu'r Strategaeth** | **15** |
| Methodoleg | 15 |
| **V. Gwneud iddo Ddigwydd** | **16** |
| Galluogi Gweithgareddau Iechyd Rhyngwladol | 16 |
| Ystyriaethau wrth gyflawni'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol | 19 |
| **VI. Casgliad** | **20** |
| **VII. Geirfa** | **21** |
| **Cyfeiriadau** | **22** |


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

## Pwy ydym ni a beth ydym ni'n ei wneud

Ni yw Iechyd Cyhoeddus Cymru - y sefydliad iechyd y cyhoedd cenedlaethol i Gymru. Ein pwrpas yw gweithio gyda'n gilydd i gael Cymru iachach. Rydym yn gweithio tuag at Gymru lle mae pobl yn byw bywydau hirach ac iachach a lle mae gan bawb fynediad teg a chyfartal at y pethau sy'n arwain at iechyd a llesiant da.

Mae ein Strategaeth Hirdymor (2023-35) yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer sicrhau dyfodol iachach i bobl Cymru erbyn 2035. Mae'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol hon yn strategaeth alluogi sy'n ein helpu i gyflawni ein Strategaeth Hirdymor a'i blaenoriaethau strategol.

# Crynodeb Gweithredol





**Rydym wedi datblygu Strategaeth Iechyd Ryngwladol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i hadnewyddu. Ein gweledigaeth iechyd ryngwladol yw bod yn sefydliad iechyd y cyhoedd cenedlaethol ysbrydoledig sydd â chysylltiadau byd-eang, sy'n gweithio tuag at Gymru iachach a thecach i fynd i'r afael â heriau a nodau a rennir byd-eang.**

Mae'r cyd-destun gwleidyddol, cymdeithasol ac amgylcheddol byd-eang wedi newid yn aruthrol ers y Strategaeth Iechyd Ryngwladol wreiddiol yn 2017 gyda'r DU yn gadael yr UE ('Brexit'), pandemig COVID-19, yr argyfwng costau byw ac achosion cynyddol o ddigwyddiadau tywydd eithafol oherwydd newid hinsawdd.


Mae llawer o enghreifftiau buddiol o gydweithio rhyngwladol ym maes iechyd wedi digwydd ers 2017 a nod y Strategaeth hon yw adeiladu ar y rhain a galluogi'r Strategaeth Hirdymor i gael ei chyflawni drwy ei gweithredu. Gall gwaith iechyd rhyngwladol amrywio o bartneriaethau ymchwil, rhannu gwybodaeth drwy gyfarfodydd digidol i hyfforddiant ar y cyd a chydweithio ar brosiectau a gweithgareddau eraill. Yna gellir rhoi'r dysgu hwn ar waith yng Nghymru i wella iechyd a llesiant y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau. Gall ein cefnogi i fod yn asiantaeth iechyd y cyhoedd genedlaethol sydd â chysylltiadau byd-eang, yn defnyddio dulliau arloesol a'n harbenigedd rhyngwladol, gan helpu i atal clefydau, hybu a diogelu iechyd, darparu arweinyddiaeth system, a gwasanaethau arbenigol. Mae'r strategaeth hon yn dangos sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid fel sefydliadau iechyd y cyhoedd, Llywodraeth Cymru ac eraill i alluogi gweithgarwch iechyd rhyngwladol a gweithio mewn partneriaeth.

## Nodau'r Strategaeth yw:

- Mwyafu buddion ar gyfer iechyd a llesiant pobl Cymru
- Datblygu pobl a sefydliadau sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- Ymateb i fygythiadau iechyd byd-eang ac elwa ar gyfleoedd rhyngwladol.

Er mwyn datblygu ein Strategaeth, rydym wedi canolbwyntio ar alluogi gwaith iechyd rhyngwladol sy'n cyd-fynd â chwe blaenoriaeth strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru fel y nodir yn ein Strategaeth Hirdymor (gweler Ffigur 1).

**Ffigur 1: Blaenoriaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer iechyd y boblogaeth yng Nghymru.**




## Y chwech gweithgaredd iechyd rhyngwladol galluogol yw:

1. Cryfhau partneriaethau, cydweithrediadau a rhwydweithiau
2. Ysgogi arfer gorau ac arloesi
3. Meithrin dinasyddion sy'n gyfrifol yn fyd-eang trwy feithrin perthnasoedd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a chyflawni ymrwymiadau rhyngwladol
4. Darparu 'Cymuned Ymarfer Iechyd Rhyngwladol'
5. Creu ystorfa a Chylchlythyr Iechyd Rhyngwladol
6. Cefnogi cyfleoedd rhyngwladol ar gyfer ariannu a meithrin gallu

Byddwn yn hwyluso'r gwaith o gyflawni ein Strategaeth drwy ganolbwyntio ar weithgarwch sy'n ddefnyddiol, yn ystyrlon, ac a all ysgogi gwybodaeth a chamau gweithredu er budd pobl Cymru. Mae enghreifftiau yn cynnwys: cryfhau partneriaethau, cydweithrediadau a rhwydweithiau trwy ddarparu lle i dimau gysylltu a dysgu oddi wrth ei gilydd trwy rwydwaith o ymarfer; diweddaru Pecyn Cymorth y Siarter ar gyfer Partneriaethau Rhyngwladol gydag adnoddau newydd i alluogi cydweithredu; rhannu mewnwelediad a dysgu trwy gylchlythyrau a darparu gwybodaeth am arfer gorau a sut y gellir ei addasu i gyd-destun Iechyd Cyhoeddus Cymru; ac amlygu cyfleoedd ariannu a hyfforddiant sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae gwella a chryfhau partneriaethau iechyd rhyngwladol a gweithio ar draws y sefydliad yn hanfodol i gwrdd â heriau cymhleth, gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn y dyfodol.

# I. Cyflwyniad

*'Does neb yn ddiogel nes bod pawb yn ddiogel'*

Tedros Ghebreyesus, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Sefydliad Iechyd y Byd[i]






**Mae iechyd rhyngwladol yn cynnig myrdd o gyfleoedd i gefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru, GIG Cymru, a'n rhanddeiliaid a'n partneriaid allweddol i sicrhau dyfodol iachach i Gymru, gan adael neb ar ôl.**

Er gwaethaf llwyddiannau sylweddol yng Nghymru, mae heriau o hyd, gan gynnwys bylchau parhaus mewn tlodi ac anghydraddoldeb. Gall disgwyliad oes amrywio hyd at 7.5 mlynedd rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig. Mae anghydraddoldeb hefyd yn faich economaidd, gan gostio tua £322 miliwn i'r GIG yng Nghymru. Er mwyn gwneud cynnydd tuag at degwch, cyfiawnder cymdeithasol, a gwell iechyd, mae ymgysylltu byd-eang gweithredol yn hanfodol i ddeall a mynd i'r afael â'r materion hyn yn well.

Er enghraifft, mae pandemig COVID-19 yn dangos cydweithrediad iechyd byd-eang yn ymarferol a'r manteision a ddaw yn ei sgil i bobl Cymru. Daeth yr ymateb i'r pandemig ag ymchwilwyr iechyd ac arweinwyr system ar draws ffiniau ynghyd i rannu dysgu, syniadau, gwybodaeth, meddyginiaethau a brechiadau. Roedd gweithio ar y cyd tuag at nod byd-eang cyffredin yn ffocws cryf i'r broses o adfer o'r pandemig. Drwy weithio gyda phartneriaid rhyngwladol, gallwn ni yng Nghymru gynyddu ein cyfranogiad yn yr agenda diogelwch iechyd byd-eang, i amddiffyn ein poblogaeth ac eraill yn well, gan weithio tuag at fyd sy'n fwy diogel rhag bygythiadau fel ymwrthedd gwrthficrobaidd, clefydau milheintiol, bioddiogelwch a bioddiogeledd.

Mae gwireddu buddion ymgysylltu iechyd rhyngwladol a byd-eang yn hanfodol er mwyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyflawni ei swyddogaeth, ei weledigaeth, ei genhadaeth, ei flaenoriaethau strategol a'i amcanion llesiant (Ffigur 2).

Ffigur 2. Manteision partneriaeth ryngwladol ac ymgysylltu iechyd byd-eang yn galluogi ein blaenoriaethau sefydliadol



# II. Nodau





**Bydd y Strategaeth Iechyd Ryngwladol yn galluogi'r sefydliad i wneud y mwyaf o'r buddion a'r cyfleoedd a gynigir gan waith iechyd rhyngwladol a wneir i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol y Strategaeth Hirdymor.**

## Nodau'r Strategaeth yw:

### 1. Mwyafu buddion ar gyfer iechyd a llesiant y bobl yng Nghymru

***Mae gweithio mewn partneriaeth ar y cyd yn golygu y gallwn ddysgu gan sefydliadau rhyngwladol a chymhwyso hyn i'r persbectif Cymreig, gan ein helpu i nodi meysydd ar gyfer newid er budd iechyd y boblogaeth.***[1]

**Ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymru**
Cyflwyno dysgu rhyngwladol, cydweithio a sganio'r gorwel i lywio gwahanol ffyrdd o feddwl, i ddiogelu, gwella a hybu iechyd a llesiant y bobl yng Nghymru, cryfhau ein system iechyd (y cyhoedd); a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

**Ar gyfer y tu hwnt i ffiniau Cymru**
Helpu i gryfhau rôl Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru fel 'safle arloesi byw' ac arweinydd ym maes arloesi, polisi ac ymarfer ym maes iechyd y cyhoedd, gan rannu a chyfrannu at iechyd y boblogaeth yn fyd-eang.

1 *Dyfyniad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad*

## 2. Datblygu pobl a sefydliadau sy'n gyfrifol yn fyd-eang

***Mae anghydraddoldebau iechyd byd-eang yn systematig ac yn annheg. Fel Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, gallwn gyfrannu at ddeall a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn a dysgu oddi wrth ein partneriaid dramor.***[2]

**Ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymru**

Helpu i hyrwyddo'r sefydliad fel arweinydd system ar gyfer iechyd y boblogaeth, datblygu cynaliadwy, tegwch ac amrywiaeth, sy'n edrych i'r dyfodol ac yn allanol, yn dysgu'n barhaus, yn gwella ac yn arloesi.

Helpu i uwchsgilio ein gweithwyr iechyd y cyhoedd proffesiynol, gan feithrin eu hyder a'u gwerth fel rhan o gymuned iechyd y cyhoedd fyd-eang, sy'n gwneud eu gorau mewn gweithle cyffrous.

**Y tu hwnt i ffiniau Cymru**

Cyfrannu at yr agenda iechyd byd-eang, gan gynnwys gweithredu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs), a chefnogi datblygu gweithlu iechyd byd-eang a meithrin gallu.

## 3. Ymateb i fygythiadau iechyd byd-eang ac elwa ar gyfleoedd rhyngwladol

***Cydnabod ein rolau fel dinasyddion byd-eang ac am undod byd-eang ar faterion iechyd sy'n rhyngweithio ar lefelau byd-eang, cenedlaethol a lleol.***[3]

**Ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymru**

Helpu i gryfhau capasiti a gallu system iechyd cyhoeddus Cymru i fynd i'r afael â heriau a bygythiadau iechyd byd-eang ac ymateb iddynt.

Hwyluso cyfleoedd ar gyfer dysgu ac ymchwil rhyngwladol, cynhyrchu incwm, a phartneriaethau cilyddol i gefnogi meithrin Cymru iachach a mwy cyfartal.

**Y tu hwnt i ffiniau Cymru**

Gosod Cymru fel dylanwadwr byd-eang wrth fynd i'r afael â heriau byd-eang, megis yr argyfwng hinsawdd, diogelwch iechyd byd-eang, anghydraddoldebau iechyd a baich clefydau.

Bydd y Strategaeth Iechyd Ryngwladol yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, Strategaeth Ryngwladol Cymru a'r Siarter Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol ac mae wedi'i datblygu i gyd-fynd â hwy.

2 *Dyfyniad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad*
3 *Dyfyniad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad*

# III. Edrych yn ôl

**Mae hanes iechyd byd-eang Cymru yn dyddio'n ôl i 1985 gyda Chyswllt Iechyd unigryw Dolen Cymru. Cafodd ymrwymiad GIG Cymru i iechyd rhyngwladol ei sefydlu ymhellach yn nogfen Llywodraeth Cymru, Iechyd o fewn a Thu Hwnt i Ffiniau Cymru: Fframwaith Galluogi ar gyfer Ymgysylltu Rhyngwladol ag Iechyd.[x] Yn fwy diweddar, bu galwadau hefyd gan Lywodraeth Cymru i godi proffil[xi] rhyngwladol Cymru a chael dull mwy cydgysylltiedig at weithgarwch rhyngwladol yng Nghymru[xii].**


Ers 2017, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflawni ei Flaenoriaethau Strategol[xiii] drwy weithgareddau fel:

- Arweinydd sefydliadol Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI) a chyd-gadeirydd rhwydwaith Pwyntiau Ffocws Cenedlaethol IANPHI
- Dynodi yn 2018 ac ail-ddynodi yn 2022 Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar fuddsoddi mewn Iechyd a Llesiant
- Hwyluso Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd 2020 ac Adnewyddu 2023
- Ail-lofnodi'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru 2019 a hwyluso gweithrediad ar draws y GIG
- Adroddiadau Dysgu ac Sganio Gorwelion Rhyngwladol 2020-23, gan gynnwys llywio ymateb ac adferiad pandemig COVID-19
- Modiwlau Dinasyddiaeth Fyd-eang 2021
- Rôl arweiniol yn yr ymgyrch fyd-eang Nursing Now
- Datblygu ymchwil rhyngwladol blaenllaw ac arfer gorau, gan gynnwys ym meysydd Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), genomeg iechyd y cyhoedd, diogelu, tegwch iechyd, ac ati.
- Cynnal a hwyluso lleoliadau rhyngwladol ar gyfer hyfforddiant iechyd y cyhoedd a datblygiad proffesiynol
- Cynhyrchu cylchlythyr iechyd rhyngwladol a lledaenu cyfleoedd a dysgu ar draws partneriaid allweddol yng Nghymru a'r DU
- Archwilio a defnyddio atebion, cyfleoedd a dysgu rhyngwladol i helpu i gefnogi recriwtio a chadw gweithlu cynaliadwy

Mae astudiaethau achos a ddatblygwyd ar gyfer y Strategaeth hon yn amlygu sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mynd i'r afael â heriau enbyd, yn ogystal â datblygu ein gweithlu trwy rwydwaith gwell o bartneriaethau a chysylltiadau (Atodiad I, blychau 8.1-8.8). *Er enghraifft,* mae'r gyfarwyddiaeth Gwelliant Cymru wedi bod yn cydweithio â chwmni o'r Unol Daleithiau i gefnogi GIG Cymru i reoli'r pwysau sy'n ymwneud â llif cleifion mewn ysbytai, lleihau pwysau ar draws y system a chryfhau gwytnwch gwasanaethau.

Dangosir llinell amser o'n cerrig milltir iechyd rhyngwladol yn Ffigur 3 isod.

## Ffigur 3. Llinell Amser Iechyd Rhyngwladol



# Enghreifftiau o ffactorau rhyngwladol sy'n ymwneud â Blaenoriaethau Strategol y Strategaeth Hirdymor

**Heriau a chyfleoedd byd-eang, ac enghreifftiau sefydliadol perthnasol:**

## 1 Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd

- **Argyfwng costau byw –** Bydd adferiad economaidd amrywiol o'r pandemig yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau difreintiedig a bregus, gyda chanlyniadau i iechyd.
- **Tegwch iechyd –** Mae adroddiad SDG 2022 yn tynnu sylw at anghydraddoldebau amlwg, er enghraifft, mae cyfraddau marwolaethau ymhlith plant 14 gwaith yn uwch yn Affrica Is-Sahara nag yn Ewrop[xiv].
- **Gwrthdaro –** Mae dau biliwn o bobl yn byw mewn gwledydd yr effeithir arnynt gan wrthdaro ag effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar iechyd ac a all arwain at ddadleoli a mudo.
- **Mudo –** Roedd nifer y bobl a ddadleolwyd trwy rym yn fyd-eang yn uwch nag erioed yn 2022, sef dros 100 miliwn[xv]. Bydd angen newidiadau mewn seilwaith a gwasanaethau i reoli anghenion pobl ac ymateb i epidemioleg clefydau sy'n newid[xvi, xvii].

**Enghreifftiau sefydliadol:**

- Chwaraeodd ein harweinydd Gwasanaethau Diogelu a Sgrinio Iechyd ac IANPHI ran sylweddol wrth gefnogi a dysgu o brofiad Gwlad Pwyl o'r rhyfel Rwsia-Wcráin.
- Rydym yn nodi atebion gyda Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer tegwch iechyd ac yn cefnogi'r GIG a'r system ehangach yng Nghymru i leihau'r bwlch iechyd.

## 2 Hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol

- **Gwybodaeth-demig –** Mae argaeledd cyflym llawer iawn o wybodaeth, yn gywir ac yn anghywir, wedi cymylu dealltwriaeth y cyhoedd o negeseuon iechyd y cyhoedd ac wedi cyfrannu at ddrwgdybiaeth mewn awdurdodau[xviii].
- **Mudiad byd-eang economi llesiant –** Creu economi i bawb lle mae'r rheolau, normau a chymhellion wedi'u sefydlu i ddarparu ansawdd bywyd, llesiant meddyliol a llesiant ehangach mewn cytgord â'n hamgylchedd ac adeiladu cymunedau a chymdeithasau cynaliadwy a gwydn, yn hytrach na thwf economaidd yn unig.
- **Clymblaid Iechyd Meddwl Pan-Ewropeaidd WHO –** Cydweithrediad o arweinwyr cenedlaethol, gweithwyr proffesiynol, aelodau o gymdeithas sifil, ac arbenigwyr sy'n ymroddedig i wella iechyd meddwl a'i roi ar frig yr agenda bolisi.

**Enghreifftiau sefydliadol:**

- Rydym wedi ein sefydlu fel arweinwyr byd-eang ym meysydd mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a darparu gwasanaethau aml-sector sy'n seiliedig ar drawma.
- Rydym yn aelodau o Rwydwaith Iechyd Meddwl Cyhoeddus y Pum Gwlad.

- Rydym yn datblygu Asesiad o'r Effaith ar Lesiant Meddwl, wedi cynhyrchu Fframwaith wedi'i Lywio gan Drawma ac yn datblygu gwaith ar iechyd a llesiant meddwl gyda Sefydliad Iechyd y Byd a phartneriaid rhyngwladol.

## 3 Hyrwyddo ymddygiad iach

- **Hybu iechyd ac atal clefydau yn mynd i'r afael â baich clefydau anhrosglwyddadwy (NCDs) –** Mae lefelau uchel o ymddygiad sy'n niweidio iechyd, fel ysmygu, camddefnyddio alcohol, gweithgarwch corfforol isel a diet maethlon gwael yn peri pryder cynyddol.
- **Menter Flaenllaw Sefydliad Iechyd y Byd ar Ymddygiadau Iachach: yn ymgorffori mewnwelediadau ymddygiadol a diwylliannol –** Gellir osgoi neu gywiro rhwystrau i iechyd optimaidd trwy feithrin gwell dealltwriaeth o ffactorau cymdeithasol, ymddygiadol a diwylliannol.

**Enghreifftiau sefydliadol:**

- Sefydlu Uned Gwyddor Ymddygiad gyda rôl arweiniol Sefydliad Iechyd y Byd a rhyngwladol
- Rydym yn gweithio i sicrhau bod Cymru yn parhau i fod ymhlith y gwledydd mwyaf blaenllaw yn fyd-eang o ran mynd i'r afael â'r materion hyn, megis drwy ddeddfwriaeth tybaco.
- Mynd i'r afael â ffactorau risg allweddol, megis gordewdra, a hybu ymddygiad iach, trwy ddysgu o dystiolaeth, arferion a dulliau gweithredu byd-eang.

## 4 Cefnogi datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar

- **Cryfhau systemau, galluoedd a gweithlu iechyd y cyhoedd -** Mae Cynulliad Iechyd y Byd yn rhagweld y bydd prinder byd-eang o 10 miliwn o weithwyr gofal iechyd proffesiynol erbyn 2030[xix].
- **Iechyd digidol -** Yn cynnwys iechyd symudol (mIechyd), iechyd electronig (eIechyd), technoleg gwybodaeth iechyd (TG) neu feddygaeth bersonol. Yn 2020, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd Strategaeth Fyd-eang pum mlynedd ar Iechyd Digidol, fel galluogwr hanfodol ar gyfer cyrraedd y targedau tri biliwn erbyn 2023[xx].
- **Adeiladu systemau integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer iechyd a llesiant fel Economi Sylfaenol** – Mae hyn yn cynnwys gofal tymor hir a chanolradd sy'n Seiliedig ar Werth, gofal integredig a gwaith ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

**Enghreifftiau sefydliadol:**

- Rydym yn cryfhau ein rôl genedlaethol a byd-eang fel safle arloesi byw ar gyfer gwariant a buddsoddiad cynaliadwy, Seiliedig ar Werth, sy'n canolbwyntio ar degwch mewn iechyd a llesiant trwy ein Canolfan Gydweithredol WHO.
- Darparu arweinyddiaeth system ar ystod o risgiau dynodedig, gan gynnwys Heintiau a Gafwyd mewn Gofal Iechyd (HCAI) ac Ymwrthedd Gwrth-ficrobaidd (AMR) a chlefydau y gellir eu hatal â brechlyn.
- Rôl arweiniol yn yr ymgyrch fyd-eang Nursing Now.

## 5 Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol i amddiffyn y cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y boblogaeth

- **Diogelwch iechyd byd-eang** – Mae effaith globaleiddio ar iechyd yn cael ei hamlygu trwy ledaeniad cyflym o glefydau trosglwyddadwy, a welir yn fwyaf nodedig trwy bandemig COVID-19.
- **Agenda Imiwneiddio Ewropeaidd 2030** – Mae'r Fenter Flaenllaw Ewropeaidd WHO hon yn gosod cwrs newydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran brechiadau rhwng ac o fewn gwledydd.

**Enghreifftiau sefydliadol:**

- Rydym wedi adolygu cynlluniau DU gyfan ar gyfer gwasanaethau genomeg pathogenau ac wedi nodi, lle bo'n bosibl, map ffordd a rennir ar gyfer datblygu/mabwysiadu gwasanaethau.
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol, er enghraifft drwy Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU a Grŵp Goruchwylio'r Pedair Gwlad.

## 6 Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd

- **Argyfwng hinsawdd** – Wedi'i ddatgan gan Lywodraeth Cymru yn 2019[xxi], mae'n effeithio ar bob SDG ac mae'n fygythiad enfawr i iechyd dynol a'r blaned. Mae'n *'lluosydd argyfwng'*, yn cael yr effaith fwyaf ar y rhai mwyaf agored i niwed.
- **Un Iechyd** – Mae canolbwyntio ar optimeiddio iechyd rhyngddibynnol pobl, anifeiliaid ac ecosystemau, yn gofyn am weithredu aml-sector a dull integredig[xxii].

**Enghreifftiau sefydliadol:**

- Rydym yn dilyn map ffordd IANPHI ar gyfer gweithredu ar iechyd a newid hinsawdd sy'n nodi sut mae gan Asiantaethau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol rôl hollbwysig fel gweithredwyr hinsawdd allweddol.
- Mae ein Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd yn cefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio.
- Defnyddiwyd offer megis Asesu'r Effaith ar Iechyd i gefnogi cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb i ddatblygu cynlluniau addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar lefel leol i ystyried effeithiau'r rhain ar iechyd, llesiant a thegwch.

## 7 Galluogi cyflawni ein strategaeth yn llwyddiannus

- **Cyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy 2030 -** nododd adolygiad yn 2022 o Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig[xxiii] gynnydd sefydlog neu araf tuag at y rhan fwyaf o'r 17 Nod.
- **Targedau Biliwn Triphlyg**[xxv, xxvi] - Mae'r tri tharged isod yn ffurfio blaenoriaethau canolog Rhaglen Waith Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd 2020-25 'Gweithredu Unedig ar gyfer Gwell Iechyd'.[xxvii]

| | | |
|---|---|---|
| Elwa o gwmpas iechyd cyffredinol | Gwell amddiffyniad rhag argyfyngau iechyd | Mwynhau gwell iechyd a llesiant |

**Enghreifftiau sefydliadol:**

- Mae'r Ganolfan Cydlynu Iechyd Rhyngwladol (IHCC) yn gweithio ar draws y GIG, yn datblygu ac yn rhannu cyfleoedd, offer ac adnoddau, megis y modiwlau Dinasyddiaeth Fyd-eang, pecynnau cymorth, interniaethau ac ymweliadau astudio.
- Rydym yn cefnogi rôl ryngwladol flaenllaw Cymru yn adeiladu Economïau Llesiant gyda'r sector iechyd yn sbardun allweddol, gan weithio gyda phartneriaid a rhwydweithiau allweddol, megis Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, WHO, IANPHI, EuroHealthNet a grwpiau arbenigol rhyngwladol.
- Rydym yn cynyddu'r defnydd o wyddor ymddygiad mewn polisi ac ymarfer, er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl ar iechyd a llesiant, wedi'i chynhyrchu ar y cyd â rhanddeiliaid cenedlaethol a rhyngwladol.



## O Iechyd Byd-eang i Iechyd y Blaned

Mae'r termau 'iechyd byd-eang' ac 'iechyd rhyngwladol' yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, ac eto mae gwahaniaeth rhyngddynt (Tabl 1). Drwy gydol y strategaeth hon rydym yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r symudiad byd-eang tuag at gyflawni 'Un Iechyd' ac 'iechyd y blaned' yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy.

**Tabl 1. Diffiniadau a ddefnyddir yn Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru**

| | |
|---|---|
| **Iechyd Rhyngwladol** | Mae iechyd rhyngwladol yn aml yn cwmpasu materion sy'n digwydd y tu allan i'ch gwlad eich hun, gan gynnwys cydweithredu trawsffiniol, ac fe'i defnyddir weithiau i gyfeirio at weithio gyda gwledydd sy'n datblygu ac ymdrechion cymorth tramor |
| **Iechyd Byd-eang** | "Y maes astudio, ymchwil ac ymarfer sy'n rhoi blaenoriaeth i wella iechyd a sicrhau tegwch mewn iechyd i bawb ledled y byd", gan gynnwys eich gwlad eich hun, lle gall problemau fynd y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol a chael effaith fyd-eang"[xxviii] |
| **Iechyd y Blaned** | "Cyflawni'r safon uchaf o iechyd, llesiant a thegwch yn fyd-eang drwy roi sylw doeth i'r systemau dynol—gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol—sy'n llunio dyfodol dynolryw a systemau naturiol y Ddaear sy'n diffinio'r terfynau amgylcheddol diogel y gall y ddynoliaeth ffynnu oddi mewn iddynt. Yn syml, iechyd y blaned yw iechyd gwareiddiad dynol a chyflwr y systemau naturiol y mae'n dibynnu arnynt"[xxix] |
| **Un Iechyd** | "Dull integredig, unedig sy'n ceisio cydbwyso a gwella iechyd pobl, anifeiliaid ac ecosystemau yn gynaliadwy. Mae'n cydnabod bod iechyd bodau dynol, anifeiliaid domestig a gwyllt, planhigion, a'r amgylchedd ehangach (gan gynnwys ecosystemau) wedi'u cysylltu'n agos ac yn rhyngddibynnol."[xxx] |

## Cymru fel rhan o ddull iechyd byd-eang a datblygu rhyngwladol ehangach y DU

Mae partneriaethau a chydweithrediad rhyngwladol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cynnwys gweithio **ar draws pedair gwlad y DU,** gan archwilio, rhannu a dysgu er budd poblogaeth y DU gyfan.  Mae'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol wedi adlewyrchu a chyd-fynd â **Fframwaith Iechyd Byd-eang y DU**[xxxi] a'r dull tuag at ddatblygiad a chydweithrediad rhyngwladol ac rydym yn cysylltu'n barhaus â sefydliadau a rhwydweithiau perthnasol yn y DU. *Er enghraifft*, rydym yn gweithio'n agos ag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) yn Lloegr, sydd hefyd â brîff DU gyfan ar gyfer llawer o faterion iechyd byd-eang. Mae'r Cenhedloedd Datganoledig yn rhannu datblygiadau a chyfleoedd drwy **fforwm Iechyd y Cyhoedd Byd-eang Pedair Gwlad y DU** lle mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymryd rhan ac yn cyfrannu.

# IV. Creu'r Strategaeth

## Methodoleg

**Datblygwyd y Strategaeth Iechyd Ryngwladol wedi'i hadnewyddu drwy adolygiad cwmpasu, mapio gweithgarwch rhyngwladol ar draws y sefydliad (Gweler, Atodiad II, Gwybodaeth Ategol Dechnegol), ac ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori helaeth trwy arolygon a chyfweliadau hysbyswyr allweddol. Cynhaliwyd dadansoddiad thematig i ddatgelu manteision, rhwystrau, cyfleoedd a blaenoriaethau iechyd rhyngwladol, ac adlewyrchir pob un ohonynt yn y strategaeth hon. Yna cafodd y data ei driongli â deddfwriaeth berthnasol (ac adolygiad cwmpasu). Mae methodoleg a chanfyddiadau manwl ar gael yn Atodiad I, Gwybodaeth Ategol Dechnegol.**

Fel rhan o ymgysylltu helaeth ag ystod eang o randdeiliaid ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae nifer o heriau a themâu trawsbynciol allweddol ar gyfer gweithgarwch iechyd rhyngwladol wedi'u nodi a'u hadlewyrchu yn yr adnewyddiad hwn. Roedd y canfyddiadau'n dangos bod gwaith rhyngwladol yn aml yn digwydd drwy bocedi o ragoriaeth ac oherwydd diffyg dull strategol, mae'r rhannu a'r effaith wedi parhau'n gyfyngedig.

Mae meysydd gweithredu o fewn gwaith iechyd rhyngwladol yn cynnwys mynd i'r afael â heriau (anghydraddoldebau iechyd, pwysau ôl-bandemig, a mudo) a gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd (sicrhau buddion i iechyd pobl Cymru, cefnogi dysgu cydweithredol, a galluogi Cymru i gyfrannu at heriau byd-eang), ac yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r ymgysylltu.

# V. Gwneud iddo Ddigwydd


**Mae Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r gwaith ymarferol o gyflawni blaenoriaethau strategol Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ogystal ag mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid cenedlaethol a rhyngwladol allweddol. Mae'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol hefyd yn cefnogi ymgysylltiad rhyngwladol ehangach y GIG trwy'r IHCC a gweithredu'r Siarter Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol. Mae gan y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol a'i thîm Iechyd Rhyngwladol rôl barhaus i ysgogi a chefnogi gweithrediad y strategaeth drwy ymgysylltu traws-sefydliadol a Chymru, a hefyd cysylltu'n fyd-eang.**

## Galluogi Gweithgareddau Iechyd Rhyngwladol

Bydd y Strategaeth yn cael ei chyflawni drwy'r **chwe gweithgaredd iechyd rhyngwladol** a ganlyn (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i):

1. Cryfhau a datblygu **partneriaethau, cydweithrediadau, a rhwydweithiau** newydd a chyfredol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr ac yn llawn parch.
2. Archwilio, rhannu, a chymhwyso dysgu ac ymchwil rhyngwladol i yrru **arfer gorau** ac **arloesi** yn seiliedig ar dystiolaeth, hyrwyddo **tegwch a chyfiawnder cymdeithasol** a **chyfrannu at y gymuned fyd-eang**.
3. Hybu diwylliant cydweithredol a chynhwysol ar gyfer **dinasyddion sy'n gyfrifol yn fyd-eang** trwy **feithrin perthnasoedd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol** a **chyflawni ymrwymiadau rhyngwladol.**
4. Darparu gofod a chefnogaeth ar gyfer rhannu, archwilio synergeddau, cyfnewid gwybodaeth, rhwydweithio ac adeiladu ar ein hasedau sefydliadol, gan sefydlu **'Cymuned Ymarfer Iechyd Rhyngwladol'.**
5. Arddangos cyflawniadau a chyfleoedd trwy **ystorfa a Chylchlythyr Iechyd Rhyngwladol,** gan ddangos nad oes angen teithio er mwyn cyflawni gweithgareddau bob amser.
6. Adnabod a chefnogi **cyfleoedd rhyngwladol ar gyfer ariannu a meithrin gallu**, gan gynnwys recriwtio, cadw staff a datblygiad proffesiynol parhaus.

Ategir y rhain gan **werthoedd a ffyrdd o weithio a rennir:**



Gwerthoedd ac addewid y cyhoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Llywodraethu cadarn i gynnal enw da a lleiafu risgiau a bygythiadau


Cysylltu â strategaethau galluogi eraill, gan adeiladu ar synergeddau a buddion cilyddol

Dyrannu adnoddau i gefnogi'r sefydliad a staff i weithredu'r blaenoriaethau strategol drwy lens ryngwladol

## Llwybr Gweithredu

Bydd gweithredu, monitro a gwerthuso'r strategaeth alluogi hon yn cael ei ddatblygu i gyd-fynd â gweithredu, monitro a gwerthuso Strategaeth Hirdymor y sefydliad a'i chefnogi. Bydd y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, gan gynnwys yr IHCC a'r tîm Iechyd Rhyngwladol, yn parhau i wasanaethu fel canolbwynt ar gyfer mapio, cynnull, hwyluso, cyfathrebu a chymorth ar draws y sefydliad, a chysylltu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid a rhwydweithiau strategol (Ffigur 4).

**Ffigur 4. Map rhanddeiliaid Iechyd Cyhoeddus Cymru**




## Cymuned Ymarfer Ryngwladol Iechyd y Cyhoedd


Bydd y Gymuned Ymarfer yn llwyfan i'r rhai sy'n ymwneud â gweithgarwch iechyd rhyngwladol a byd-eang ledled Cymru. Bydd yn llwyfan ar gyfer dysgu ar y cyd, datgelu cyfleoedd a heriau, ac yn lle i hyrwyddo arfer gorau.

## Grŵp Gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol y GIG

Bydd y grŵp trosfwaol hwn yn cael ei drefnu a'i gadeirio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd yn darparu rôl strategol wrth lywio cyfeiriad ymgysylltu a chydweithio rhyngwladol yn y dyfodol, gan sicrhau aliniad â blaenoriaethau strategol cenedlaethol a sefydliadol. Bydd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr perthnasol o Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a'r GIG a rhanddeiliaid allweddol yn y sector cyhoeddus, academaidd a'r trydydd sector.

Mae llawer o linynnau i weithredu'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol er mwyn galluogi'r Strategaeth Hirdymor. Mae hyn yn cynnwys datblygu arweinyddiaeth ar gyfer iechyd rhyngwladol a chynllun gweithredu ar gyfer hyn a hefyd creu offer a gofodau i gefnogi cyflwyno'r ddwy strategaeth. Mae Ffigur 5 yn dangos y llinynnau hyn.

### Ffigur 5. Gweithredu'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol



# Ystyriaethau wrth gyflawni'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol

## Goblygiadau o ran Adnoddau a Galw

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn anelu at ehangu ei swyddogaeth a'i asedau rhyngwladol i ddod yn arweinydd system iechyd y cyhoedd blaengar ar gyfer gwaith iechyd rhyngwladol a byd-eang ar draws y GIG a Chymru, gan ddarparu arweinyddiaeth, cydgysylltu, ac arbenigedd. I wneud hyn, mae angen i ni gryfhau ein hymrwymiad a'n cyfrifoldeb sefydliadol, i sicrhau capasiti cynaliadwy a'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl a gwerth am arian.

Bu ymchwydd yn y disgwyliad a'r galw ar y swyddogaeth ryngwladol. Mae hyn yn gofyn am flaenoriaethu a ffocws er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'r sefydliad, i'r GIG ac i Gymru, a phartneriaid allanol. Mae hefyd yn galw am weithio'n agosach gyda'n Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol, cymunedau Cymru a Llywodraeth Leol, y sector academaidd, y trydydd sector a'r sector preifat, gan ddefnyddio cyfleoedd newydd, cyfuno ymdrechion a dod â chyllid allanol i mewn. Mae angen defnyddio dulliau cenedlaethol a rhyngwladol gyda'i gilydd i adeiladu adnoddau ychwanegol:

**Cenedlaethol:**

- Mewnbwn strategol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gallu a chryfhau rôl ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys gwneud y mwyaf o swyddogaeth IHCC ar draws y GIG.
- Mewnbwn gweithredol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi ymgysylltiad a gwaith rhyngwladol ar draws y sefydliad trwy adnoddau ar gyfer partneriaethau strategol a datblygu staff, a rôl alluogi'r Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol.
- Mewnbwn rhanddeiliaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector academaidd, y trydydd sector a'r sector preifat er enghraifft trwy grantiau ymchwil ar y cyd a rhaglenni gwaith; neu archwilio dulliau busnes, megis partneriaethau cyhoeddus-preifat.

**Rhyngwladol** yn defnyddio ffynonellau cynhyrchu incwm y DU, Ewrop a byd-eang, megis:

- Cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil a pholisi rhyngwladol ar y cyd.
- Datblygu a marchnata gwasanaethau, dulliau a dulliau gweithredu arloesol.
- Defnyddio cyfleoedd masnachol a masnach.

# VI. Casgliad



Mae angen mawr i atgyfnerthu a chydgysylltu ein harlwy iechyd rhyngwladol sefydliadol o fewn y DU a chyd-destun byd-eang er mwyn sicrhau'r buddion a'r cyfleoedd mwyaf posibl i bobl Cymru tra'n lleihau bygythiadau a niwed.

Mae'r strategaeth alluogi hon yn cefnogi gweithrediad ein strategaeth Hirdymor ar draws y sefydliad, gan feithrin synergeddau, rhannu dysg a chryfhau ein rôl, partneriaethau a dylanwad byd-eang.

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau poblogaethau, cymunedau, economïau a phlaned iachach a thecach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, o fewn a thu hwnt i ffiniau Cymru.

# VII. Geirfa

**Ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMB)** yw gallu micro-organeb, fel bacteria, firysau, a rhai parasitiaid i atal cyffur gwrthficrobaidd, fel gwrthfiotigau, cyffuriau gwrthfeirysol ac antimalariaid rhag gweithio yn ei erbyn. O ganlyniad, mae triniaethau safonol yn dod yn aneffeithiol, mae heintiau'n parhau a gallant ledaenu i eraill.

Mae bioddiogelwch a **bioddiogeledd** yn gysyniadau cysylltiedig ond gwahanol. Nod bioddiogelwch yw lleihau neu ddileu amlygiad unigolion a'r amgylchedd i gyfryngau biolegol a allai fod yn beryglus trwy weithredu protocol rheoli a chyfyngu. Bioddiogeledd yw atal colled, lladrad neu gamddefnydd o ficro-organebau a deunydd biolegol a gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag ymchwil trwy gyfyngu ar fynediad i gyfleusterau, deunyddiau biolegol a gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag ymchwil (CDC).

**Brexit** yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020, yn dilyn refferendwm ym mis Mehefin 2016.

Mae clefydau trosglwyddadwy neu glefydau heintus yn cael eu hachosi gan ficro-organebau pathogenig, megis bacteria, firysau, parasitiaid neu ffyngau; gall y clefydau gael eu lledaenu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o un person i'r llall.

Mae clefydau anhrosglwyddadwy **(NCDs)**, a elwir hefyd yn glefydau cronig, yn tueddu i bara'n hir ac yn ganlyniad cyfuniad o ffactorau genetig, ffisiolegol, amgylcheddol ac ymddygiad.

Mae'r **Undeb Ewropeaidd (UE)** yn undeb economaidd a gwleidyddol unigryw rhwng 27 o wledydd Ewropeaidd sydd gyda'i gilydd yn cwmpasu llawer o'r cyfandir. Crëwyd yr UE yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Y camau cyntaf oedd meithrin cydweithrediad economaidd: y syniad oedd bod gwledydd sy'n masnachu â'i gilydd yn dod yn gyd-ddibynnol yn economaidd ac felly'n fwy tebygol o osgoi gwrthdaro. Y canlyniad oedd y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (EEC), a grëwyd yn 1958, ac i ddechrau bu'n cynyddu cydweithrediad economaidd rhwng chwe gwlad: Gwlad Belg, yr Almaen, Ffrainc, yr Eidal, Lwcsembwrg a'r Iseldiroedd. Ers hynny, crewyd marchnad sengl enfawr ac mae'n parhau i ddatblygu i'w llawn botensial. Gadawodd y DU yr UE ar 31 Ionawr 2020 ("Brexit").

**Iechyd byd-eang** yw'r maes astudio, ymchwil ac ymarfer sy'n rhoi blaenoriaeth i wella iechyd a chyflawni tegwch mewn iechyd i bawb ledled y byd, gan gynnwys eich gwlad eich hun, lle gall problemau fynd y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol a chael effaith fyd-eang.

Mae **iechyd rhyngwladol** yn fwy cyffredin yn ymdrin â materion sy'n digwydd y tu allan i'ch gwlad eich hun, gan gynnwys cydweithredu trawsffiniol ac fe'i defnyddir weithiau i gyfeirio at waith gyda gwledydd sy'n datblygu ac ymdrechion cymorth tramor.

Mae Un Iechyd yn disgrifio dull integredig, unedig sy'n ceisio cydbwyso a gwella iechyd pobl, anifeiliaid ac ecosystemau yn gynaliadwy. Mae'n cydnabod bod iechyd bodau dynol, anifeiliaid domestig a gwyllt, planhigion, a'r amgylchedd ehangach (gan gynnwys ecosystemau) wedi'u cysylltu'n agos ac yn rhyngddibynnol. Nod Un Iechyd yw annog ymdrechion cydweithredol disgyblaethau lluosog, gan weithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang i sicrhau'r iechyd gorau i bobl, anifeiliaid, a'n hamgylchedd.

Iechyd y Blaned yw cyflawni'r safon uchaf o iechyd, llesiant a thegwch yn fyd-eang drwy roi sylw doeth i'r systemau dynol, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol, sy'n llunio dyfodol dynolryw a systemau naturiol y Ddaear sy'n diffinio'r terfynau amgylcheddol diogel y gall y ddynoliaeth ffynnu oddi mewn iddynt. Iechyd y blaned yw iechyd gwareiddiad dynol a chyflwr y systemau naturiol y mae'n dibynnu arnynt.

Clefydau milheintiol yw clefydau heintus anifeiliaid sy'n gallu achosi afiechyd pan gânt eu trosglwyddo i bobl.

# Cyfeiriadau


i Sefydliad Iechyd y Byd (2021). Prif araith Cyfarwyddwr Cyffredinol WHO yn Fforwm Economaidd Rhyngwladol St Petersburg '21. Ar gael o: https://www.who.int/director-general/speeches/detail/who-director-general-s-keynote-speech-at-the-st-petersburg-international-economic-forum-21 (Dyddiad cyrchu: 17/04/2023)

ii Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) Health state life expectancies by national deprivation quintiles, Wales: 2018 i 2020. Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthinequalities/bulletins/healthstatelifeexpectanciesbynationaldeprivationdecileswales/2018to2020 (Dyddiad cyrchu: 17/04/2023)

iii Kadel R, Darlington O, Allen J, et al. (2021). Adroddiad Cost Anghydraddoldeb Iechyd i'r GIG yng Nghymru 1 Cost sy'n Gysylltiedig ag Anghydraddoldeb yn y Defnydd o Wasanaethau Ysbytai i'r GIG yng Nghymru. Ar gael o: https://phw.nhs.wales/publications/publications1/cost-of-health-inequality-to-the-nhs-in-wales/ (Dyddiad cyrchu: 17/04/2023)

iv Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023) Ein Strategaeth Hirdymor 2023 i 2035. Ar gael o: https://phw.nhs.walehttps://icc.gig.cymru/amdanom-ni/gweithio-gydan-gilydd-ar-gyfer-cymru-iachach/s/about-us/working-together-for-a-healthier-wales/(Dyddiad cyrchu: 04/08/2023)

v Llywodraeth Cymru (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Ar gael o: https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol (Dyddiad cyrchu: 01/08/2023)

vi Y Cenhedloedd Unedig (2015) Nodau Datblygu Cynaliadwy. Ar gael o: https://www.un.org/sustainabledevelopment/development-agenda/ (Dyddiad cyrchu: 01/08/2023)

vii Llywodraeth Cymru (2020). Strategaeth Ryngwladol i Gymru. Ar gael o: https://www.gov.https://www.llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru (Dyddiad cyrchu: 31/07/2023)

viii Couzens L, Bellis MA, Mably S, et al. (2014). Siarter Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru. Ar gael o: https://phwwhocc.co.uk/adnoddau/siarter-partneriaethau-iechyd-rhyngwladol-yng-nghymru/?lang=cy (Dyddiad cyrchu: 01/08/2023)

ix Dolen Cymru Wales Lesotho Link (1985). Ar gael o: https://www.waleslesotholink.org/ (Dyddiad cyrchu 24/01/2017)

x Llywodraeth Cymru (2012). Iechyd o fewn a thu hwnt i ffiniau Cymru: fframwaith galluogi ar gyfer ymgysylltu iechyd rhyngwladol. Ar gael o: https://www.internationalhealth.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1100/120626frameworkcy.pdf (Dyddiad cyrchu 20/10/2016)

xi Llywodraeth Cymru (2020). Strategaeth Ryngwladol i Gymru. Ar gael o: xihttps://www.llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru? (Dyddiad cyrchu: 03/04/2023)

xii Chalmers K, Okea B, Tropical Health Education Trust (2021). Adolygiad Gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru. Ar gael o: https://www.thet.org/wp-content/uploads/2021/10/International-Health-Activity-in-Wales_Rapid-Review.pdf (Dyddiad cyrchu 17/04/2023)

xiii Dyakova M, Couzens L, Bellis MA (2017). Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ein Strategaeth Iechyd Ryngwladol 2017-2027. Ar gael o: https://phwwhocc.co.uk/adnoddau/iechyd-cyhoeddus-cymru-ein-strategaeth-iechyd-rhyngwladol-2017-2027/?lang=cy (Dyddiad Cyrchu: 01/08/2023)

xiv Y Cenhedloedd Unedig (2022) The Sustainable Development Goals Report. Ar gael o: https://unstats.un.org/sdgs/report/2022/The-Sustainable-Development-Goals-Report-2022.pdf (Dyddiad cyrchu 17/04/2023)

xv Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (2022) Adaptation Gap Report 2022. Ar gael o: https://www.unep.org/resources/adaptation-gap-report-2022?gclid=EAIaIQobChMIv9S13dfO_QIVCu_tCh2niQDyEAAYASAAEgK2H_D_BwE (Dyddiad cyrchu: 17/04/2023)

xvi World Bank Blogs (2021) Millions on the move: What climate change could mean for internal migration. Ar gael o: https://blogs.worldbank.org/voices/millions-move-what-climate-change-could-mean-internal-migration (Dyddiad cyrchu: 17/04/2023)

xvii Chalmers K, Rutherford A, Tîm Polisi a Dysgu THET (2022) Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru: adolygiad cwmpasu byd-eang canol tymor.

xviii WHO Infodemic. https://www.who.int/health-topics/infodemic#tab=tab_1 (Dyddiad cyrchu 04/04/2023)

xix WHO, Cynulliad Iechyd y Byd 2022. Global strategy on human resources for health: workforce 2030. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Ar gael o: https://apps.who.int/gb/ebwha/pdf_files/WHA75/A75_15-en.pdf (Dyddiad cyrchu: 17/04/2023)

xx Sefydliad Iechyd y Byd (2021) Global Strategy on digital health 2020 -2025. Ar gael o: https://www.who.int/docs/default-source/documents/gs4dhdaa2a9f352b0445bafbc79ca799dce4d.pdf (Dyddiad cyrchu: 17/04/2023)

xxi Llywodraeth Cymru (2019). Llywodraeth Cymru yn gwneud datganiad argyfwng hinsawdd. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgan-ei-bod-yn-argyfwng-ar-yr-hinsawdd [Dyddiad cyrchu: 17/04/2023)

xxii WHO (2020). Maniffesto WHO ar gyfer adferiad iach o COVID-19. Ar gael o: https://www.who.int/news-room/feature-stories/detail/who-manifesto-for-a-healthy-recovery-from-covid-19 (Dyddiad cyrchu: 04/04/2023)

xxiii Y Cenhedloedd Unedig (2015) Nodau Datblygu Cynaliadwy. Ar gael o: https://www.sustainabledevelopment.un.org/?menu=1300 (Dyddiad cyrchu 11/02/2016)

xxiv Y Cenhedloedd Unedig (2022) The Sustainable Development Goals Report. Ar gael o: https://unstats.un.org/sdgs/report/2022/The-Sustainable-Development-Goals-Report-2022.pdf (Dyddiad cyrchu 17/04/2023)

xxv Sefydliad Iechyd y Byd (2019). Trydedd Raglen Waith ar Ddeg Gyffredinol WHO (2019-23). Ar gael o https://www.who.int/about/what-we-do/thirteenth-general-programme-of-work-2019---2023 (Dyddiad cyrchu 03/04/2023)

xxvi Sefydliad Iechyd y Byd (2020). The Triple Billion Targets: C+A. Ar gael o: https://www.who.int/news-room/questions-and-answers/item/the-triple-billion-targets (Dyddiad cyrchu 04/03/2023)

xxvii Sefydliad Iechyd y Byd EURO (2021). Rhaglen Waith Ewropeaidd 2020-2025: United Action for Better Health. https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/332467/WHO-EURO-2020-690-40425-54211-eng.pdf?sequence=1&isAllowed=y (Dyddiad cyrchu 03/04/2023)

xxviii Koplan YH, Bond TC, Merson MH, et al. (2009). Towards a common definition of global health. Lancet. 373 (9679): 1993–5. Ar gael o: https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/19493564/ (Dyddiad cyrchu: 31/07/2023)

xxix Whitmee S, Haines A, Beyrer C, et al. (2015). Safeguarding human health in the Anthropocene epoch: report of The Rockefeller Foundation–Lancet Commission on planetary health. Lancet. Ar gael o: http://dx.doi.org/10.1016/S0140-6736(15)60901-1 (Dyddiad cyrchu 30/01/2023)

xxx Sefydliad Iechyd y Byd (2021). Mae Tripartite ac UNEP yn cefnogi diffiniad OHHLEP o “Un Iechyd”. Ar gael o: https://www.who.int/news/item/01-12-2021-tripartite-and-unep-support-ohhlep-s-definition-of-one-health (Dyddiad cyrchu 30/01/2023)

xxxi Foreign, Commonwealth & Development Office and Department of Health and Social Care (2023). Global Health Framework: working together towards a healthier world. Ar gael o: Global Health Framework: working together towards a healthier world - GOV.UK (www.gov.uk)

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: +44 (0)29 2022 7744

icc.gig.cymru